yw eiddynt; ac y mae'r cyfryw *actiadau* nid yn unig yn ddirym, ond yn bechadurus.

(*b*) Perfformiad (drama, &c.): *performance* (*of play*, *&c.*).
1736 (1812) *YRW* [69], Dymunwn trwy'ch cenad, / Rai cywrain eich cariad, / Am bob cam-gymmeriad, / A ninnau cyn ieuanged, / A'n *Hactiad* 'madawiad yn dyfod.

actiaf, actaf: actio, acto [bf. o'r e. *act*] *bg.a.* a hefyd gyda grym enwol i'r be.

(*a*) Perfformio (drama, &c.), perfformio rhan (cymeriad mewn drama), bod yn actor(es), gweithio fel actor(es), dynwared, efelychu: *to act or perform* (*a play*, *&c.*), *act the part of* (*a character in a play*, *&c.*), *be an actor or actress*, *work as an actor or actress*, *imitate*, *mimic*.
1736 (1812) *YRW* 65, Meistr Postfardd 'roedd ger bron, / Hanes Syr Rissiart Whittington, / Yma'n Interlute i'w *hactio*, / Heddyw yn newydd o waith Cymro. **1783** H. Jones: *PN* 5, Rwyf fi a'm ffrind yn osio, / Myn'd hŷd y wlâd i'w *hactio* [drama]. **1789** Twm o'r Nant: *TChB* 42, Mi dd'weuda am lais Utcorn hâ hâ heb la is [*sic*] *Acto*. Ar lafar yn gyff., 'Mae o'n *actio* fo'n inion', *WVBD* 227; '*Actio* mae o rŵan', '*Actio* uffernol o sâl'; 'Man' nw'n *acto* un o ddramâu Mr Berry', *GTN* 2. Cf. D. Owen: *RL* 378, roedd Mr. Williams yma . . . yn medryd ych *actio* chi i'r blewyn.

(*b*) Gweithredu, dod yn weithredol, rhoddi ar waith; gweithredu neu ymddwyn (fel person penodol, mewn swydd benodol, &c.); gweithio: *to act*, *become active*, *put into action*; *act* (*as*), *behave* (*like*); *work*.
1710 S. Williams: *UOY* 8, ac mi archaf i Dduw, na *actier* byth drachefn ddim o'r cyfryw Drychineb aruthrol ar Orsedd Prydain fawr. **1725** D. Lewis: *GB* 127, Rhai sy'n tybied fod mâth o Fywyd gwan, neu rinwedd fywiol, ym mhob Stamen er y Dechreuad, fel y mae Bywyd Pren a Llysieuyn yn yr Hedyn, ond nad yw yn ymddangos ac yn *acto*, hyd nes delo, ac fel y delo ei Offeryneu corphorol i Addfedrwydd. **1732** *RE* 20, Ar cyfriw su 'n *acto* 'n Enw 'r Brenin heb ei Gommissiwn, su 'n rythro [*sic*] ar Ychelfraint y Brenin, yn lle ufyddhau iddo, gan ossod ei hunan yn 'r orsedd. **1746** T. Richards: *CER* 24, parhau a wna i weithredu (*acto*) fel Brenin. **1752** J. Thomas: *FG* 91, yr Enaid ag sydd yn *acto* ac yn bywhâu Crefydd y rhai cyfiawn wedi eu perffeithio. **1793** B. Jones: *AD* 34, arall yn *Actio* yn ei le, fel proxy neu ddirprwywr. **1794** E. Jones: *CP* 69, Gellir rhoi cwyn at un ustus, ond rhaid bod dau i *actio*. **1796** T. Jones: *CCA* 376, Wedi dadleu'r addewid, *actia* dy ffydd ar allu a ffyddlondeb Duw. Ar lafar, 'Amser 'oeddwn i'n gwnïo a'r masîn gwnïo yn pallu *actio* 'oedd rhaid ifi hôl llwyth' (sir Gaerf.). Cf. *Geir Pob* 5, *Actio*, gweithredu; D. Owen: *RL* 337, Am lawer o flynyddoedd yr oedd Abel wedi *actio* fel bugail i'r eglwys; D. Owen: *GT* 103, mae'r fraich ddê yma yn cau *actio*.

actiedig [?cfdds. o'r S. (*en*)*act*(*ed*)+*-iedig*] *a.bfl.* Wedi ei orchymyn, ordeiniedig: *enacted*, *decreed*, *ordained*.
1567 *LlGG* [x], Bit pellach yn *actietic* (*enacted*) can yr auturtat ddywededic. **1664** *id.* [xvii], Profeidier yn oestad a Bîd *Actiedig* (*Enacted*), na bo i nêb . . . feddu, dal, [n]eu fwynhaû y cyfryw Barsonoliae[th].

actif [bnth. S. C. *active*] *a.*

(*a*) *Gram.* Gweithredol: *active* (*in gram.*).
1455–6 *GP* 83, O'r bervav erchefnedic Rai ysydd vervav *actif*, rrai vervav pasif . . . Beryf *actif* a vyn achvsiaid wedi hi, val y mae 'amo Iohannem'.

(*b*) Gweithredol; heini, sionc, bywiog; yn amlygu symptomau (am afiechyd): *active*, *working*, *operative*; *active*, *lively*, *energetic*; *active* (*of disease*).
1960.

actifadaf: actifadu [cfdds. o'r S. (*to*) *activate*] *ba.* Gwneud yn weithredol, rhoddi ar waith, ysgogi; *Cem.* cynyddu graddfa (adwaith), trin (sylwedd) er mwyn cynyddu ei allu i arsugno; *Ffis.* gwneud yn ymbelydrol: *to activate* (*also in chem. and physics*).
1988.

actifadydd [bôn y f. *actifadaf*: *actifadu*+*-ydd*[3]] *eg.* ll. *actifadyddion*. Peth sy'n actifadu, ysgogydd: *activator*.
1988.

actifedd [cfdds. o'r S. *activ*(*ity*)+*-edd*[1]] *eg.* ll. *actifeddau*. Yr ansawdd neu'r cyflwr o fod yn weithredol neu'n symudol, defnydd o egni, gweithrediad grymus, gweithgaredd: *activity*.
1978.

actifeiddiaf: actifeiddio [cfdds. o'r S. (*to*) *activ*(*ate*)+*-eiddio*] *ba.* Ysgogi, actifadu: *to activate*.
1996.

actifiaeth [cfdds. o'r S. *activ*(*ism*)+*-iaeth*] *eb.g.* Polisi o weithredu neu ymgyrchu'n rymus, yn enw. mewn gwleidyddiaeth, *Athr.* damcaniaeth sy'n dal fod pob un dim yn weithredol: *activism* (*also in philos.*).
1968.

actiol, gw. **actol.**

actiwaraidd [*actiwar*(*i*)+*-aidd*] *a.* Yn perthyn i actiwariaid neu i'w proffesiwn: *actuarial*.
1972.

actiwari, actwari [bnth. S. *actuary*] *eg.* ll. *actiwariaid*, *actwariaid*. Un sy'n cynhyrchu ac yn dadansoddi ystadegau er mwyn amcangyfrif risgiau a phremiymau yswiriant: *actuary*.
1937.

actiwarydd [cfdds. o'r S. *actuar*(*y*)+*-ydd*[3]] *eg.* ll. *actiwaryddion*. Actiwari: *actuary*.
1972.

actiwr, actwr [bôn y f. *actiaf*, *actaf*: *actio*, *acto*+*-*(*i*)*wr*] *eg.* (b. *actreg*) ll. *actwyr*. Actor (mewn drama, &c.), perfformiwr: (*dramatic*) *actor*, *performer*.
1850. Ar lafar, 'Mae wedi bod yn *actiwr* da' (sir Drefn.); '*Actwr* penigamp odd Gwil ni', *GTN* 3.
Gw. hefyd **actydd.**

actol, actiol [*act*+*-ol*, *-iol*] *a.* Dramatig, y gellir ei berfformio: *dramatic*, *performable*.
1926. Ar lafar yn yr ymad. 'cân *actol*'.

acton, gw. **actwn.**

actor [bnth. S. *actor*] *eg.* (b. *actores*, ll. *actoresau*) ll. *actorion*. Un sy'n actio rhan mewn drama, &c., un sy'n ennill ei fywoliaeth drwy actio; gweithredwr: (*dramatic*) *actor*; *actor*, *doer*.
1860. Ar lafar, ''Odd y lle'n llawn o gyfryngis ac *actorion*'; 'cwmpni o *actorion*', *GTN* 3.
Amr.: **actres** [bnth. S. *actress*]. **1964.**
Cfn.: **actor reolwr:** *actor-manager*. **1964.**

actreg, gw. **actiwr.**

actres, gw. **actor.**

actrws, gw. **rhagddrws.**

actuol [cfdds. o'r S. *actu*(*al*)+*-ol*] *a.* Gwirioneddol, real: *real*.
c. **1700** *CM* 15, 65, Pa fodd y gellir bedyddio plant y rhai nid oes ffydd *actuol* genddynt?

actus [?*act*+*-us*] *a.* Tueddol: *inclined*, *liable*.
1940. Ar lafar, 'Mae'n *actus* o ddod ar nos Sadwn', ''Wi'n *actus* iawn i' neud e' (godre Cered.); hefyd yn sir Gaerf. yn y ff. *hactus*.

actwaith [*act*+*gwaith*[1]] *eg.* ?Ysgolheictod, hyfedredd, gallu: ?*scholarship*, *proficiency*, *ability*.
1592 *PhA* 263, eisieu un mwy mwy na saith / eisiau doctor sad *actwaith* [marwnad y Dr Wiliam Gruffudd gan Siôn Phylip].

actwari, gw. **actiwari.**

actwn [bnth. S. C. *actoun*, neu'n uniongyrchol o Ffr. Lloegr *aketoun*] *eg.* ll. *actynnau*. Siaced o gotwm cwiltiog a wisgir dan arfwisg, siaced ledr, &c., orchuddiedig â phlatiau metel, arfwisg: *acton* (*type of jacket or coat of mail*), *armour*.
14g. *YBH* 9a, gwiscaȯd arueu ymdanaȯ nyt amgen. *actȯn* da dilis ysgafyn. *c.* **1400** (*SG*) *HMSS* i. 330, Ar marchawc a ymgyfodes arhynt ac yn llidiawc ac ae trewis ynteu ar y ysgwyd deheu yny dyrr y luric ae *actwn*. **15**g. *GLGC* 351, Pais Derfel ynghylch Siôn a welir, / *actwn* a wisg Siôn megis Ector [moliant Siôn ap Ieuan]. **15**g. *GGl*[2] 208, A'th darian wêr wrth deiraer, / A'th *actwn* o grwyn cŵn Caer [dychan i Ddafydd ab Edmwnd]. **1588** *B* i. 315, *actwn* . . . arfau. **16–17**g. *ib. actwn*: dooblet . . . lhurig. **1722** *Llst* 190, *Actwn.* as Lluryg. m.g.pl. *Actynnau*. **1725** *SR* d.g. *A Coat Armour*, *or coat of mail.*

actwr, gw. **actiwr.**

actydd [bôn y f. *actiaf*: *actio*+*-ydd*[3]] *e.g.* Actor (mewn drama, &c.): (*dramatic*) *actor*.
1931.
Gw. hefyd **actiwr.**

acuriad [ansicr yw union ff. yr engh. gyntaf isod a'i phrth. â H. Ffr. *escuier*] *eg.* ll. *acuriaid*, ?*acweriaid*. Gwastrawd, gwas meirch, ysgwïer: *equerry*, *groom*, (*e*)*squire*.
13g. *HGK* 22–3, [c]olli rann vaur o varchogyon ac *acueryeit* a gueissyon a meirch. **14**g. *HMSS* ii. 10, a chyuodi or *accuryeit* y vynyd. a gwrteithaw eu meirch ac eu hebrannu yn diwall ehalaeth. **1604–7** *TW* (*Pen* 228) d.g. *Accurator. id. Accuriat* meirch d.g. *Curator equorum.*

acw [< *rhacw*, *racw* drwy gamraniad] *adf.* ac *a. dng.* a hefyd gyda grym enwol. Yna, draw, yn y fan draw; gartref, yn eich, &c., cartref: *there*, *yonder*, *over there*; *at home*, *in your*, *&c.*, *home*.
14g. *GDG*[3] 178, A'm pen ar y gobennydd, / *Acw* y daw cyn y dydd. **14**g. *GIG* 6, Cynta' dim a wela'n wir, / Caer fawrdeg *acw* ar fordir. **15**g. *GDID* 100, Pe bai gennyf fytheiaid, / Y cig ir *acw* a gaid. **15–16**g. *GLM* 32, Carw o Feurig cryf araf, / cyw Owain Glyn, *acw*'n glaf. **1547** *WS*, *Ackw* Yonder. **1588** *Gen* xxii. 5, mi a'r llangc a awn hyd *accw*. *id*. xxxvii. 19, wele *accw* y breuddwyd-wr yn dyfod. **1595** H. Lewys: *PA* 51, peth yma, peth *acw*, peth fordd arall. **1632** *D*, *Accw*, Ibi. **1653** *MLl* i. 226, Ni all fôd ond vn anfesurol . . . nid rhan o hono sydd ymma, a rhan *accw*, canys nid oes mor [*sic*] rhannau ynddo. **1688** *TJ*, *Accw*. There. *c.* **1730** *Taith C* 26, [y] Castell a welwch chwi *accw* draw. **1793** *P*, *Acw* . . . Yonder; there; in that place. **1794** *W* d.g. *There* [*in that place*]. **1798** R. Davies: *CG* 72, Mawr fydd ffwndwr, / *Accw* ynghynnwr, y canghennau. Ar lafar, '*acw* ym Mangor', 'y rŵm i fyny '*cw*', 'Sut mae'r teulu *acw*?' 'how are you all at home?', *WVBD* 6.

Fel *a. dng.* (ar ôl e. neu r. a ragflaenir gan y fan.) Hwnnw, honno, hynny, yna: *that*, *those*, *yonder*.
1536 *Rhyddiaith Gymraeg* i. 38, y lili kyrinion y sydd yn y pot *acw*. **1547** *WS* [xiii], dal yn graff ar ddywedyat y gair *ackw* chese. **1588** *Nu* xiii. 31, ni allwn fyned i fynu, yn erbyn y bobl *accw*. **1588** *Eseia* xlix. 12, y rhai *accw* o'r gogledd, ac o'r gorllewyn. **1592** S. D. Rhys: *Inst* [xx], ymroi i chwilio am y bai yma a 'r bai *accw*. **1632** *D*, *Accw* . . . illic. **1688** S. Hughes: *TSP* 4, A weli di y Porth bychan *accw*? **1703** E. Wynne: *BC* 29, a'r henddyn *accw* sy 'n siarad âg ef. **1768** Twm o'r Nant: *CTh* 4, taro'r Ddynes *accw* a wnawn. **1790** T. Jones: *TOS* 327, Nid yw'r sêr gwibiog *accw* . . . on'd lluserneu . . . i'th oleuo. Ar lafar, 'Y tŷ *acw* 'dach chi'n feddwl?', *WVBD* 6.

Amr.: **aco** [*aco* < *rhaco*, *raco* drwy gamraniad] **15**g. *GLGC* 247. **1551** W. Salesbury: *Kll* xxiib. Ar lafar, 'Ni fyddwn *aco* erbyn tri ar gloch', *GTN* 813; ''Shgwl ar y ferch *aco*' (dwyrain Morg.). **acwy. 16**g. Lewys Morgannwg: *Gw* 396, 439, 560. *c.* **1585** *TMC* 70. **'co.** Ar lafar, 'Ceso' i'r watsh '*co* gida mam a dad' (sir Gaerf.); 'trip y Wei-eff-si '*co*', *Wês wês* 14; *GTN* 206. **oco** [< *aco* drwy gyd.]. **1574** *Llst* 171, 65a. **1592** S. D. Rhys: *Inst* 106. *c.* **1785–90 (1829)** *CBYP* 123. **1793** *P.* Ar lafar, 'Pwy sy'n pregethu *oco* 'fory?' (Morg.). **yco** [< *aco* drwy wanychiad]. Ar lafar, *GTN* 206. Cf. D. J. Williams: *HW* 13, yr hen bishin corsog *yco*.
Gw. hefyd **rhaco, rhacw.**

acwafeiti, &c. [bnth. S. C. *aqua vite*] *e.* Gwirod, brandi, hefyd yn *ffig.*: (*alcoholic*) *spirits*, *brandy*, *also fig*.
15g. *PC* 36, Cerdd hoff yw cyhwrdd â hi: / caf eto *acwa feiti* (*DE* 49 (amr.), *aqua viti*) [Dafydd ab Edmwnd i'r cusan]. **16–17**g. *Cer RC* 126, Ef a geisiwyd i gwenwyno, / Iredd feindw, wynion ddwylo,—/ Y lindys las a'r *acyfeiti*; / Duw, ni alle'r fall mo'i brofi. **1714** D. Lewys: *CN* 4, Mel a llaeth sydd yn ei Enau, / *Acwa Fite* fel y Gwin. *c.* **1740** *LlM* 24, Mynn *Acwafeiti* a Salet Oel. **1770** R. Prichard: *CC* 280, Afon loyw fel yr arian, / Yn tarddu o orsedd Duw ei hunan, / Sy 'n dyfrhau pob heol ynddi, / Dyfwr gwell nag *Acwafeiti*. *id.* 287, Y mae 'r geneu 'n cael ei borthi / Bob dydd, a Manna, ac *Acwafeiti*.

acwariwm, acweriwm [bnth. S. *aquarium*] *eg.* ll. *acwaria*. Tanc dŵr tryloyw, &c., at gadw pysgod ac anifeiliaid a phlanhigion